## GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A48, YR A40 A'R A465 (TERFYN CYFLYMDER 30 MYA) 202-

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Cafodd deddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd cyfyngedig o 30 mya i 20 mya ei gwneud gan Weinidogion Cymru ar 13 Gorffennaf 2022. Bydd y terfyn cyflymder 20 mya diofyn newydd ar ffyrdd cyfyngedig (a nodweddir gan system goleuadau stryd neu sydd fel arall o dan gyfyngiad drwy Orchymyn) yn dod i rym ar 17 Medi 2023. O'r dyddiad hwnnw, bydd gan unrhyw ffordd gyfyngedig derfyn cyflymder 20 mya oni bai bod terfyn cyflymder gwahanol yn cael ei osod gan yr awdurdod priffyrdd drwy Orchymyn.

Mae'r rhannau presennol o Rwydwaith Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru sydd ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder 30 mya neu lai wedi eu hasesu yn erbyn y meini prawf lleoliad a nodir yn adendwm 01/2022 i Gylchlythyr Rhif: 24/2009 Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru er mwyn canfod a ydynt yn bodloni'r meini prawf eithrio ac y dylent barhau'n 30 mya.

Mae egwyddorion y meini prawf eithrio yn seiliedig ar ddyhead Llywodraeth Cymru y dylai terfyn cyflymder 20 mya gael ei osod yn gyffredinol pan fo cerddwyr a/neu feicwyr a cherbydau modur yn cymysgu'n aml, ac eithrio pan fo tystiolaeth gref yn dangos bod cyflymderau uwch yn ddiogel. Yn dilyn asesiad, cynigir terfyn cyflymder 30 mya yn y lleoliadau a amlinellir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, fel eithriadau i'r terfyn cyflymder 20 mya diofyn.

## THE A48, A40 and A465 TRUNK ROADS (30 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-

## STATEMENT OF REASONS

Legislation to lower the default national speed limit on restricted roads in Wales from 30 mph to 20 mph was made by the Welsh Ministers on 13 July 2022. The new default 20 mph speed limit on restricted roads will come into force on 17 September 2023. From that date any restricted road will have a speed limit of 20 mph unless a different speed limit is set by the highway authority by Order.

The existing sections of Trunk Road Network currently subject to 30mph or less have been assessed against the Place Criteria set out in addendum 01/2022 to Circular No: 24/2009 Setting Local Speed Limits in Wales to ascertain if they meet the exception criteria and should remain at 30 mph.

The principles of the exceptions criteria are built on the Welsh Government's aspiration that a 20 mph speed limit should generally be set where pedestrians and/or cyclists and motor vehicles mix in a frequent manner, except where strong evidence exists that higher speeds are safe. Following an assessment, a 30 mph speed limit is proposed at the locations outlined in the Schedules to this Order, as exceptions to the 20 mph default speed limit.